



**Prifysgol Cymru**  
Y Drindod Dewi Sant  
**University of Wales**  
Trinity Saint David

# **Adroddiad Monitro Safonau'r Gymraeg**

Wedi'i baratoi yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**Yn seiliedig ar ddata a gofnodwyd rhwng  
1 Awst 2024 hyd at 31 Gorffennaf 2025**



Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Gallwn ddarparu'r adroddiad hwn mewn fformatau eraill ar gais.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau am yr adroddiad monitro hwn, anfonwch e-bost at y Brifysgol ar [iaithgymraeg@pcydds.ac.uk](mailto:iaithgymraeg@pcydds.ac.uk).

## Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Cyd-destun
3. Cyfrifoldeb a Chynllunio Strategol
4. Trefniadau Cydymffurfio â'r Safonau
  - 4.1. Cydymffurfiaeth Safonau Darparu Gwasanaeth
  - 4.2. Cydymffurfiaeth Safonau Llunio Polisi
  - 4.3. Cydymffurfiaeth Safonau Gweithredu
5. Codi Ymwybyddiaeth a Hyrwyddo'r Gymraeg
6. Cwynion
7. Data Sgiliau Iaith Gymraeg Staff
8. Data Cyrsiau Dysgu a Datblygu Sgiliau Cymraeg
9. Data Cyrsiau Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg
10. Data Recriwtio

## 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn adrodd ar gydymffurfiaeth Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wrth gyflawni gofynion Safonau'r Gymraeg. Nod yr adroddiad yw darparu tystiolaeth glir a thrylwyr ynghylch y cynnydd a wnaed, yr heriau a wynebwyd, a'r camau a gymerwyd er mwyn sicrhau bod y Safonau'n cael eu gweithredu yn unol â'r disgwyliadau statudol. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar y cyfnod o 1 Awst 2024 hyd 31 Gorffennaf 2025.

Mae Safonau'r Gymraeg yn cynnig fframwaith cadarn sy'n gosod gofynion penodol ar y Brifysgol i sicrhau:

- nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- bod hawliau ieithyddol siaradwyr Cymraeg yn cael eu parchu a'u gwarchod
- a bod cyfleoedd ymarferol ar gael i fyfyrwyr ddefnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn gwasanaethau, yn ogystal a chyfleoedd i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn eu hamgylchedd gwaith.

Fel y nodir yn yr adroddiad hwn, parhaodd y Brifysgol â'i dyletswydd i weithredu gofynion Safonau'r Gymraeg; mae hyn wedi cynnwys codi ymwybyddiaeth o ofynion y Safonau, drwy gynnal sesiynau ymgysylltu gydag Unedau Proffesiynol ac Athrofeydd, cynnal ymarferion hunanasesu, darparu cyngor a chanllawiau, ynghyd â sicrhau bod adroddiadau cyson yn cael eu cyflwyno yn y pwyllgorau priodol.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi trosolwg clir o'r sefyllfa bresennol, gan ddangos sut mae'r Safonau'n cael eu gweithredu'n ymarferol. Rydym yn falch o'r cynnydd a wnaethom hyd yma, ac yn cydnabod ar yr un pryd fod dal lle i wella. Rydym yn ymrwmo i barhau gyda'n ymdrechion i ddatblygu a gwella ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau yn hygyrch ac o'r ansawdd uchaf ar gyfer ein siaradwyr Cymraeg. Mae ein hymdrechion hefyd yn cyfrannu at nod ehangach Llywodraeth Cymru, sef sicrhau twf cynaliadwy yn nifer y siaradwyr Cymraeg a'r cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.

## 2. Cyd-destun

Ers 1 Ebrill 2018, mae prifysgolion yng Nghymru yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (rhif 6) 2017 a sefydlwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sicrhau bod i'r Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru, ac yn seiliedig ar ddwy egwyddor:

- yng Nghymru, ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Mae hefyd yn fodd o sefydlu fframwaith cyfreithiol sy'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gydymffurfio â safonau penodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg, sy'n sefydlu hawliau a chyfleoedd cyfartal i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith. Mae'r Safonau sydd wedi'u gosod ar y Brifysgol wedi'u cynnwys yn yr Hysbysiad Cydymffurfio.

Mae'r Brifysgol wedi manylu sut y bydd yn bwriadu cydymffurfio â'r Safonau ynghyd â sut y bydd yn hybu a hwyluso'r iaith Gymraeg yn ein [Cynllun Cydymffurfio](#), sydd wedi'i gyhoeddi ar wefan y Brifysgol.

Yn unol â gofynion y Safonau, rhaid i'r Brifysgol gynhyrchu adroddiad monitro sy'n cyfateb i'r flwyddyn ariannol flaenorol, ac yn trafod sut mae'r Brifysgol wedi cydymffurfio â'r Safonau. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad o fewn 6 mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad, a rhoi cyhoeddusrwydd ein bod wedi cyhoeddi'r adroddiad. Rhaid cynnwys y materion canlynol yn yr adroddiad:

- **Cydymffurfiaeth gyda'r Safonau**

Y modd y gwnaeth y Brifysgol gydymffurfio â'r Safonau yr oedd hi dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw (fesul dosbarth o safonau: Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Safonau Llundio Polisi, Safonau Gweithredu.)

- **Sgiliau Cymraeg y Gweithlu**

Nifer y staff sydd â graddau gwahanol o Sgiliau Iaith Gymraeg, erbyn diwedd y cyfnod dan sylw.

- **Hyfforddiant**

Nifer y staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn; os cynigwyd fersiwn Saesneg o gwrs yn ystod y flwyddyn, y ganran o'r holl fynychwyr wnaeth fynychu'r fersiwn Cymraeg.

- **Swyddi**

Nifer y swyddi gwag a newydd a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn, a gafodd eu hasesu am sgiliau yn y Gymraeg, a'u categorio fel swydd pan fo un neu ragor o'r canlynol yn gymwys:

- bod sgiliau yn y Gymraeg yn **hanfodol**
- bod **angen dysgu sgiliau** yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd
- bod sgiliau yn y Gymraeg yn **ddymunol**; neu
- sgiliau yn y Gymraeg **ddim yn angenrheidiol** ar gyfer y rôl

- **Cwynion**

Nifer y cwynion a dderbyniwyd (fesul dosbarth o safonau: Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Safonau Llundio Polisi, Safonau Gweithredu.)

Mae'r adroddiad hwn yn gosod ein cydymffurfiaeth â'r Safonau ac yn cyflwyno data angenrheidiol ar gyfer blwyddyn academiaidd 2024-25.

### 3. Cyfrifoldebau a Chynllunio Strategol

#### Cyfrifoldebau

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Brifysgol fel pob sefydliad Addysg Uwch arall yng Nghymru, wedi wynebu amodau a heriau ariannol tra sylweddol. Bu'n rhaid iddi ymateb trwy gymryd rhai penderfyniadau strategol anodd tra'n sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi lles a phrofiad ein myfyrwyr. Yn rhan o hynny, aethpwyd ati i sicrhau na fyddai unrhyw benderfyniadau yn cael effaith andwyol ar y gwasanaethau Cymraeg a gynigir gan y Brifysgol.

Yn rhan o'r broses hon, sefydlwyd rôl Pro Is-Ganghellor Cysylltiol (Gwasanaethau Cymraeg), gyda chyfrifoldeb strategol dros weithredu Strategaeth Iaith y Brifysgol, sy'n cynnwys cyfrifoldeb strategol dros oruchwylio cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Yn rhan o'r ailstrwythuro hwn hefyd, penderfynwyd integreiddio cyfrifoldeb Safonau'r Gymraeg a lleoli Swyddog Safonau'r Gymraeg yn ffurfiol oddi fewn i'r Ganolfan Gwasanaethau Cymraeg. Mae Swyddog Safonau'r Gymraeg yn gweithredu fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer holl staff y sefydliad mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg, gan gynnig cefnogaeth barhaus i'r disgyblaethau academiaidd a'r unedau proffesiynol yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

#### Y Ganolfan Gwasanaethau Cymraeg

Mae'r Ganolfan yn bwynt canolog i hyrwyddo, hwyluso a darparu gwasanaethau Cymraeg, gan wneud yn siŵr bod y Gymraeg yn iaith fyw, berthnasol ac ymarferol i staff a myfyrwyr fel ei gilydd. Mae portffolio'r Ganolfan bellach yn cynnwys:

- goruchwylio Strategaeth Iaith Gymraeg y Brifysgol
- sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg
- cydlynu gweithgarwch y Tîm Cyfieithu sy'n darparu gwasanaeth cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd.
- darparu hyfforddiant iaith Gymraeg i staff a myfyrwyr ar draws y Brifysgol
- datblygu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn strategol
- darparu adnoddau Cymraeg a chyfrwng Cymraeg i'r sector addysg yng Nghymru a thu hwnt dan frand *Peniarth*
- darparu hyfforddiant iaith Gymraeg masnachol i'r gweithlu addysg yng Nghymru dan frand *Rhagoriaith*
- cydlynu gweithgareddau Cangen y Brifysgol o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- cydlynu gweithgarwch Canolfan S4C Yr Egin

#### Trefniadau Adrodd a Goruchwylio

##### Pwyllgor Y Gymraeg

Mae'r Pwyllgor hwn yn ymdrin â phob agwedd ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y Brifysgol. Mae ei waith yn cynnwys goruchwylio gweithrediad Strategaeth y Gymraeg, sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ynghyd â bod yn gyfrifol am oruchwylio materion sy'n ymwneud â darpariaeth Gymraeg a dwyieithog a phrofiad myfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r pwyllgor hwn yn adrodd yn uniongyrchol i Senedd y Brifysgol ac fe'i cadeirir gan Pro Is-Ganghellor Cysylltiol (Gwasanaethau Cymraeg) y Brifysgol.

##### Is-bwyllgorau'r Gymraeg

Mae'r Brifysgol hefyd wedi sicrhau perchnogaeth o'r Safonau a'r holl faterion iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg ar draws y sefydliad trwy greu'r is-bwyllgorau canlynol:

- **Is-bwyllgor y Gymraeg o fewn pob un o'r 3 Athrofa Academaidd**

- Is-bwyllgor Cymraeg Yr Athrofa Addysg a'r Dyniaethau
- Is-bwyllgor Cymraeg Yr Athrofa Gwyddoniaeth a Chelf
- Is-bwyllgor Cymraeg Yr Athrofa Rheolaeth ac Iechyd

Yn ystod y flwyddyn datblygodd y tair Athrofa eu cynlluniau gweithredu unigol, gyda'r nod o gyfrannu at weithredu Strategaeth Iaith y Brifysgol.

- **Is-bwyllgor Rhwydwaith y Gymraeg (Y Gwasanaethau Proffesiynol)** – yn cynnwys cynrychiolaeth o bob un o unedau gwasanaethau cymorth a phroffesiynol y Brifysgol.

**Adolygu cylch gorchwyl Is-bwyllgor Rhwydwaith**

Adolygwyd cylch gorchwyl ac aelodaeth Is-bwyllgor Rhwydwaith y Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd, hyn er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn glir, ac yn adlewyrchu'r amcanion, y cyfrifoldebau a'r cyd-destun presennol sy'n ymwneud â gweithredu Safonau'r Gymraeg ar draws y Brifysgol. Bydd y Rhwydwaith yn ymgymryd â rôl ymarferol ei natur mewn perthynas â'r ffordd y mae'r Brifysgol yn gweithredu ei Safonau Iaith Gymraeg.

- **Pwyllgor Cangen y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

Mae'r Pwyllgor hwn yn chwarae rhan bwysig drwy gynllunio a gweithio tuag at sefydlu amgylchedd dysgu dwyieithog a chefnogi cynaliadwyedd a thwf y Gymraeg ar gyfer ein myfyrwyr.

Mae'r Pwyllgorau hyn yn derbyn adroddiadau i adolygu cynnydd yn erbyn Strategaeth y Gymraeg ynghyd â'r dyletswyddau statudol o dan reoliadau Safonau'r Gymraeg. Mae gan y pwyllgorau rôl benodol i ddatblygu a gwella defnydd o'r Gymraeg ar draws y Brifysgol, sy'n cynnwys ehangu'r cyfleoedd i gynnig cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac i fonitro cydymffurfiaeth Safonau'r Gymraeg. Mae cyfarfodydd yr is-bwyllgorau yn cael eu bwydo'n ôl i brif bwyllgor yr Iaith Gymraeg gan y Cadeiryddion.

## Cynllunio Strategol

### Strategaeth Iaith Gymraeg Y Brifysgol 2022 -26

Mae Cynllun Strategol Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (2022-26) yn gwneud ymrwymiad i'w dysgwyr ac i Gymru'n benodol, ei diwylliant, ei threftadaeth a'i hiaith trwy ei gwerthoedd a'i chymeriad arbennig. Mae'r Strategaeth Iaith Gymraeg yn cefnogi'r ymrwymiad hwn, ac mae blaenoriaethau'r Strategaeth yn ceisio sicrhau bod aelodau cymuned y Brifysgol yn cael cynnig ystod amrywiol a chynyddol o gyfleoedd astudio a defnyddio'r Gymraeg ar draws campysau'r Brifysgol yng Nghymru.

Mae pedwar maes blaenoriaeth yn perthyn i'r Strategaeth, sef:

- **Cenhadaeth ddinesig** a'r nod o adeiladu ar enw da hirsefydlog y Brifysgol fel sefydliad blaenllaw wrth hyrwyddo Cymru, ei hiaith, ei diwylliant a'i threftadaeth;
- **Addysgu a Dysgu** a'r nod o fod yn un o brif ddarparwyr addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghymru a thu hwnt;
- **Galluogi a Gwreiddio** sef hyrwyddo a hybu'r defnydd o'r Gymraeg trwy gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg;
- **Ymchwil a Mentergarwch** sef cyfrannu at weithgarwch ysgolheigaidd a datblygu mentrau masnachol a chynhyrchu incwm gan sicrhau bod cyfleoedd cyfrwng Cymraeg

yn cael eu cynnig yn rhagweithiol a'u bod ar gael, ochr yn ochr â chyfleoedd sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg ei hun.

Parhaodd y gwaith ar weithrediad a datblygiad Strategaeth Iaith Gymraeg y Brifysgol yn ystod y flwyddyn, gyda'r adroddiad blynyddol sy'n cael ei gyflwyno'n ffurfiol i MEDR ym mis Gorffennaf, yn amlygu cynnydd sylweddol. Gellir darllen yr Adroddiad Blynyddol drwy ddilyn y ddolen:

Adroddiad Blynyddol Strategaeth Iaith Gymraeg  [Welsh Language Strategy ANNUAL REPORT 2023-24 Cym TERF.pptx](#)

Mae'r Brifysgol wrthi ar hyn o bryd yn diweddaru'i Chynllun Strategol ar gyfer y cyfnod nesaf a bydd y Strategaeth Iaith Gymraeg yn cael ei diweddaru yn yr un modd yn 2026.

### **Adolygiad Cynllunio Cwricwlwm**

Fel pob sefydliad addysg uwch arall, mae sefyllfa ariannol y sector yn arwain at yr angen i gynnal ymarferiadau mewn perthynas â'i sefyllfa staffio a'i chynnig academiaidd. Yn unol â'i chynllun busnes, mae'r Brifysgol wedi dechrau cynnal adolygiad o'i phortffolio academiaidd drwy adolygu ei chwricwlwm. Pwrpas yr adolygiad yw:

- Sicrhau bod ein cynnig academiaidd yn effeithiol, yn briodol ac yn addas, ac yn gwasanaethu ein myfyrwyr
- sicrhau hyfywedd ariannol y Brifysgol
- galluogi cymuned academiaidd fywiog, gynhwysol a ffyniannus ar gyfer ein staff a myfyrwyr ar ein campysau

Mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn elfen greiddiol o'r adolygiad ac fe'i hystyrir yn systematig ar bob cam o'r broses. Mae Pro Is-Ganghellor Cysylltiol (Gwasanaethau Cymraeg), yn aelod gweithredol o'r grŵp cynllunio, gan sicrhau bod pob penderfyniad yn cyd-fynd yn llawn â Strategaeth Iaith y Brifysgol. Mae'r broses yn un dryloyw a theg ac yn cynnig cyfle mewn meysydd lle nad yw'n debygol y bydd twf mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y tymor byr i sicrhau gwaelodlin o gefnogaeth i fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn y meysydd hynny a'r rhai sy'n dymuno dysgu'r Gymraeg yn ogystal.

## **4. Trefniadau Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg**

Mae'r Safonau wedi'u trefnu fesul dosbarth o Safonau fel y nodir isod. Yn yr adran hon ceir crynodeb o'r modd y mae'r Brifysgol wedi sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau:

- Safonau Darparu Gwasanaethau
- Safonau Llundio Polisi
- Safonau Gweithredol

### **4.1 Cydymffurfiaeth Safonau Darparu Gwasanaethau (Safonau 1-92a)**

Mae'r Safonau Darparu Gwasanaeth yn nodi sut rydym yn darparu gwasanaeth a gwybodaeth i fyfyrwyr, darpar fyfyrwyr a'r cyhoedd yn Gymraeg. Ein nod yw sicrhau y gall personau gysylltu â'r Brifysgol yn eu dewis iaith ar bob achlysur, dros y ffôn, wyneb yn wyneb neu ar-lein. Er mwyn gwneud hyn rhoddir arweiniad clir i staff ynghylch disgwyliadau cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg drwy'r dulliau canlynol:

- darparu gofod ar y fewnwyd 'Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg', sy'n cynnwys gwybodaeth, dogfennau canllaw ac adnoddau i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg
- cyhoeddi erthyglau newyddion yn rheolaidd yn y bwletin staff wythnosol
- trefnu sesiynau hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth i staff

- integreiddio gwybodaeth am ofynion Safonau'r Gymraeg i mewn i raglen anwytho staff newydd
- trefnu ymgyrchoedd penodol i hyrwyddo ac atgyfnerthu defnydd o'r Gymraeg
- defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gryfhau a hyrwyddo negeseuon ynghylch gofynion Safonau'r Gymraeg
- cynnal tudalennau gwybodaeth ar ein gwefan er mwyn tynnu sylw myfyrwyr at eu hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod eu hamser yn y Brifysgol.
- cynnal trefn bwyllgorau pwrpasol i drafod, gweithredu a monitro Safonau'r Gymraeg.

## Datblygiadau Allweddol 2024-25

### Prosiect Hunanasesu Safonau'r Gymraeg

Yn ei Adroddiad Sicrwydd mae Comisiynydd y Gymraeg yn annog sefydliadau i fesur eu perfformiad eu hunain yn erbyn gofynion Safonau'r Gymraeg. Yn y Brifysgol, ein dull ni o wneud hyn yw cynnal prosiect hunanasesu ar lefel Uned Broffesiynol ac Athrofa. Yn ystod y flwyddyn adrodd rydym wedi cyflawni gwaith i fireinio'r prosiect, gan adnabod 4 cam i'r prosiect ynghyd â sicrhau cefnogaeth gan y Ganolfan Gwasanaethau Cymraeg ar bob cam, fel a ganlyn:

**Cam 1: Hunan asesu.** Adrannau i sgorio lefel cydymffurfiaeth gyferbyn â gofynion y Safonau sy'n berthnasol iddyn nhw.

**Cam 2: Dadansoddi.** Safonau sydd wedi sgorio'n isel (1,2,3) ystyried beth yw'r camau a'r gefnogaeth sydd eu hangen er mwyn gwella

**Cam 3:** Cytuno ar **gynllun gweithredu** gyda chefnogaeth yn ôl yr angen

**Cam 4: Monitro** Blynyddol

Man cychwyn y gwaith yw darparu cyflwyniad i uwch reolwyr ym mhob uned ar ofynion Safonau'r Gymraeg, cyn manylu ar y broses hunanasesu. Mae'r cylch cyntaf o'r broses wedi cymryd tipyn o amser, gan fod angen sefydlu'r Safonau perthnasol i faes gwaith yr Unedau Proffesiynol a'r Athrofeydd. Unwaith y bydd rhain wedi'u sefydlu, mae'n bosib symud ymlaen i lunio'r cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella. Nod y broses yw datblygu rhaglen wella ar gyfer pob Uned neu Athrofa, gyda chefnogaeth briodol ar bob cam, hyn er mwyn gallu mesur y cynnydd a wneir tuag at wella cydymffurfiaeth â'r Safonau ar draws y Brifysgol.

### Gwirio Hysbysfyrddau

Fel rhan o'n gweithdrefn hunan-reoleiddio parhaus, byddwn o bryd i'w gilydd yn gofyn i aelodau Pwyllgor Rhwydwaith y Gymraeg am eu cydweithrediad i gynnal arolygon gwirio; yn ystod y cyfnod adrodd hwn rhoddwyd y sylw i wirio hysbysfyrddau. Fe wnaeth 10 aelod o'r Pwyllgor Rhwydwaith gytuno mynd i'r afael â'r gwaith gwirio, drwy gofnodi eu canfyddiadau ar dempled microsoft forms. Rhwng Tachwedd a Rhagfyr 2024, llwyddwyd i wirio 25 hysbysfwrdd ar 4 campws, Abertawe, Caerfyrddin, Llambled a Chaerdydd. Mewn cyfarfod dilynol, trafodwyd eu profiad o gasglu a chyflwyno'r dystiolaeth ynghyd â sgwrs am ddyluniad a gwedd poster dwyieithog. O ganlyniad i'r drafodaeth, penderfynwyd llunio poster er mwyn atgoffa staff o'r angen i arddangos poster dwyieithog bob amser. Bu'r Adran Ystadau yn gyfrifol am sicrhau bod y poster hwn yn cael ei arddangos ar bod un hysbysfwrdd ar draws y Brifysgol. Bwriedir dychwelyd at y prosiect yn y cyfnod nesaf er mwyn medru asesu a fu gwelliannau.

### Canllaw Staff i gefnogi myfyrwyr sy'n dymuno astudio a derbyn cefnogaeth cyfrwng Cymraeg.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, buom yn datblygu protocol prifysgol-eang ar gyfer darparu tiwtor personol sy'n medru'r Gymraeg i siaradwyr Cymraeg, yn ogystal â hwyluso'r posibilrwydd i fyfyrwyr gyflwyno aseiniadau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ystod y broses, daeth yn amlwg fod angen ffurfioli'r ffordd o weithredu er mwyn sicrhau bod pob Uned yn gweithredu'n gyson ac yn unfurf.

I gyflawni hyn, cynhaliwyd gwaith ymchwil cynhwysfawr ac ymgynghori gyda nifer o aelodau staff, a'r canlyniad oedd creu'r canllaw *'Beth yw'r gefnogaeth i fyfyrwyr sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg a myfyrwyr sy'n astudio drwy'r Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant'*.

Fel rhan o'r gwaith, bu'n ofynnol derbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Safonau Academaidd (26 Chwefror 2025), er mwyn gallu diwygio Llawlyfr Rhaglen Astudio 2025-26 i gynnwys:

- cynnig i fyfyrwr ddewis iaith ar gyfer cyflwyno aseiniadau
- cynnig i fyfyrwr gael tiwtor personol sy'n gymwys i gyfathrebu'n rhugl drwy gyfrwng y Gymraeg

Bu'r cyflwyniad hwn hefyd yn gyfle i godi ymwybyddiaeth ymhlith uwch swyddogion y Brifysgol, ac i sicrhau bod pob Athrofa yn rhoi cynlluniau yn eu lle i ymateb i'r gofyniad.

Lluniwyd y canllaw at ddefnydd staff y Brifysgol er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r hawliau sydd gan fyfyrwyr i ddefnyddio'r Gymraeg, a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Mae'r canllaw yn nodi'r ddarpariaeth bresennol, gan gynnwys mynediad at diwtor personol drwy'r Gymraeg, y gallu i gyflwyno aseiniadau yn Gymraeg, a'r cymorth ieithyddol sydd ar gael. Ei nod yw rhoi gwybodaeth gyson a chlir i staff, fel y gallant gyfeirio myfyrwyr at y ddarpariaeth briodol, hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a chynorthwyo'r Brifysgol i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Mae'r canllaw wedi ei gyhoeddi mewn ffurf ddiidigol ar y fewnwyd, ac fe'i lanswyd yn swyddogol mewn digwyddiad arbennig yn rhan o Ddiwrnod Diweddariadau Hanfodol 2025/26 y Brifysgol gyfan ar yr 2il o Fedi gerbron dros 600 aelod o staff; sef digwyddiad lle mae'n ofynnol i'r holl staff academaidd ac academaidd-gysylltiedig fod yn bresennol. Byddwn hefyd yn tynnu sylw at y Canllaw ym Mhwyllgor y Gymraeg a'r Is-bwyllgorau atodol i sicrhau bod ei gynnwys yn cael ei ymgorffori'n effeithiol ym mhrosesau'r Brifysgol. Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yw'r gyntaf yng Nghymru i lunio canllaw o'r fath.

## **Y Cyfryngau Cymdeithasol**

Mae'r Adran Farchnata wedi comisiynu Asiantaeth Cyfryngau Cymdeithasol Libera i gynnal ymchwil ar ddarpariaeth cyfryngau cymdeithasol y Brifysgol. Yn ystod y gwaith hwn, daeth i'r amlwg fod angen rhagor o gefnogaeth ac arweiniad ar greu cynnwys dwyieithog. O ganlyniad, trefnwyd sesiwn gynhwysfawr (17 Mehefin 2025) gyda Chwmni Libera, lle rhannwyd syniadau ar gyfer cynhyrchu cynnwys dwyieithog effeithiol.

Yn dilyn hyn, sefydlodd yr Adran Farchnata Fforwm Cyfryngau Cymdeithasol i drafod, ymysg pynciau eraill, y gofyniad bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn deg a'u defnyddio'n glir ac yn gywir yn unol â'r ddyletswydd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg. Bu'r fforwm hwn hefyd yn gyfle i sicrhau bod cyfeiriad at gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yn cael ei ymgorffori'n llawn yn y Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Cymdeithasol sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan yr Adran Farchnata.

Yn rhan o'i gwaith rheoleiddio, cynhaliodd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg arolwg o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Brifysgol yn ystod mis Gorffennaf, gan ganolbwyntio ar y prif gyfrifon LinkedIn ac Instagram. Roedd y canfyddiadau'n gadarnhaol, gan nodi lefel uchel o gydymffurfiaeth yn y postiadau. Fodd bynnag, nodwyd bod angen gwneud rhai newidiadau penodol i hunaniaeth y cyfrif LinkedIn.


Yn unol â hyn mae'r Brifysgol wedi cysylltu gyda gwasanaeth cymorth LinkedIn, er mwyn gallu gosod teitl dwyieithog y Brifysgol fel enw swyddogol ar y cyfrif:

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant  
University of Wales Trinity Saint David.

### **Llofnodion e-bost a Negeseuon Allan o'r Swyddfa**

Mae'r Adran Cyfathrebiadau Corfforaethol wedi dylunio a chyhoeddi templedi ar gyfer llofnodion e-bost, gan alluogi staff i ddewis fersiwn sy'n nodi a ydynt yn siarad Cymraeg, yn ddysgwyr neu'n ddi-Gymraeg. Er mwyn sicrhau cysondeb a chywirdeb wrth osod manylion cyswllt mewn llofnod e-bost, mae'r Uned Gyfieithu wedi cyhoeddi rhestr o dermau defnyddiol, sy'n cynnwys teitlau adrannau ac unedau yn ogystal â theitlau Pwyllgorau'r Brifysgol. Cyn cyfnod y gwyliu haf, hyrwyddwyd yr angen i staff osod neges 'allan o'r swyddfa' yn ddwyieithog, gwnaed hynny drwy'r Bwletin Staff drwy gydol mis Gorffennaf.

### **Brawddeg ar ddogfennau yn rhoi gwybod bod fersiwn ar gael yn Gymraeg**



Yn anorffod mae Prospectws y Brifysgol yn cael ei gynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wahân, gan fod angen defnyddio'r un ddogfen ar gampysau'r Brifysgol yn Lloegr sef Birmingham a Llundain. Eleni, ychwanegwyd brawddeg i dynnu

sylw bod fersiwn Cymraeg hefyd ar gael, fel sy'n ofynnol gan ofyniad Safon 52. Drwy gyflawni'r gwaith hwn, llwyddwyd hefyd i godi ymwybyddiaeth o'r angen i gydymffurfio gyda Safonau 52 a 53a, sy'n berthnasol pan fo'n ofynnol dylunio dogfen neu ffurflen Gymraeg a Saesneg ar wahân.

### **Tudalennau ar y fewnwyd i hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg yn y gweithle**

Mae gofod penodol wedi'i neilltuo ar y fewnwyd er mwyn helpu staff i gydymffurfio gyda gofynion Safonau'r Gymraeg ac i geisio annog defnydd o'r Gymraeg. Mae'r adnodd yn cynnwys lluo o wybodaeth, canllawiau ac adnoddau i gynorthwyo staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle; er enghraifft cyfarwyddyd ar sut i ganfod pecyn Cysgliad, sut i wneud defnydd o'r gwasanaeth cyfieithu ynghyd â disgrifiad o'r hyfforddiant sydd ar gael i staff ddysgu a gwella eu sgiliau Cymraeg. Lansiwyd yr adnodd yn rhan o ddathliadau *Diwrnod Shw Mae 2024*, trwy gyflwyno fideo 'Defnyddio'r Gymraeg yn y Brifysgol'. Mae'r fideo bellach yn rhan o gyflwyniad y tudalennau cymorth hyn ar y fewnwyd.

### **Y Fewnwyd ar gyfer Staff**

Yn dilyn lansiad ein gwefan newydd llynedd, eleni mae'r Uned Gwasanaethau Digidol wedi canolbwyntio ar ddatblygu a chyhoeddi Mewnwyd Staff. Mae Mewnwyd Staff yn adnodd digidol sy'n caniatáu i staff gael mynediad at wybodaeth fewnol, dogfennau, canllawiau, newyddion, ac adnoddau hyfforddiant. Mae'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar gael yn Gymraeg, ac ar frig y bar offer, mae botwm sy'n caniatáu i'r defnyddiwr lywio'n ôl ac ymlaen rhwng y ddwy iaith, gan hwyluso defnyddio'r fewnwyd yn ddwyieithog. Fel gyda threfniadau'r wefan, nid oes modd cyflwyno gwybodaeth ar y fewnwyd, oni bai bod fersiynau dwyieithog ar gael.

### **Hwb Myfyrwyr**

Mae'r Hwb Myfyrwyr yn ganolfan ddigidol sydd wedi'i thargedu at fyfyrwyr i gynorthwyo gyda'u dysgu, datblygiad personol, a lles. Mae'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau wedi'u cynllunio i wella profiad myfyrwyr a'u llwyddiant academiaidd. Mae'r adnodd hwn hefyd ar gael yn llawn yn y Gymraeg, gyda botwm sy'n galluogi'r darlennydd i newid rhwng y ddwy iaith yn hawdd ar bob tudalen. Mae modd i fyfyrwyr gael myneiad ato drwy'r wefan neu lawrlwytho'r ap.

### **Datblygu gweithlu'r dyfodol sy'n hyderus i weithio'n ddwyieithog**

Gwasanaethir Athrofeidd y Brifysgol drwy ddarparu modylau 20 credyd **Cymraeg yn y Gweithle** lle rhoddir pwyslais ar y Gymraeg a chyflogadwydd mewn meysydd penodol. Yn y flwyddyn academaidd 2024-25 cafodd y modiwl ei gynnig i fyfyrwyr yr adran Iechyd a Gofal a'r Academi Golau Glas. Llwyddodd nifer dda o fyfyrwyr gwblhau'r modiwl 20 credyd, sy'n eu paratoi i weithio'n hyderus ac yn effeithiol yn Gymraeg a'r Saesneg. Mae trafodaethau ar waith i ymestyn y cynnig i ddisgyblaethau eraill yn y dyfodol.

### **Gweithio'n ddwys gyda'r Athrofa Celf a Gwyddoniaeth er mwyn codi ymwybyddiaeth iaith**

Trefnwyd bod cynrychiolwyr o'r Ganolfan Gwasanaethau Cymraeg yn cyflwyno sesiwn wybodaeth (11 Rhagfyr 2024) fel rhan o Ddiwrnod Datblygu Tîm yr Athrofa. Yn ystod y sesiwn, rhoddwyd trosolwg o'r gwaith sy'n mynd rhagddo i weithredu Strategaeth Iaith y Brifysgol, rhannwyd gwybodaeth am ofynion Safonau'r Gymraeg, a chynhaliwyd gweithdy rhyngweithiol i gyflwyno ymadroddion syml yn y Gymraeg, ac fe gafodd dderbyniad cadarnhaol iawn. Oherwydd bod nifer o staff yn absennol, penderfynwyd ail-gynnal y sesiwn yn ystod Diwrnod Datblygu Tîm ym mis Medi 2025.

Yn flynyddol, mae'r Athrofa yn trefnu sioeau diwedd blwyddyn i arddangos gwaith myfyrwyr, sy'n cael ei gyflwyno fel rhan o'u portffolio gradd. Er bod y sioeau hyn eisoes yn gwneud defnydd o ddwyieithrwydd, teimlwyd bod angen arweiniad a chefnogaeth ychwanegol er mwyn sicrhau cysondeb ar draws yr holl arddangosfeydd. O ganlyniad, rhoddwyd cyflwyniad i benaethiaid adrannau (17 Mehefin 2025) yn amlinellu gofynion Safonau'r Gymraeg ac yn esbonio gydag enghreifftiau sut y gellid gwneud gwell defnydd o ddwyieithrwydd yn y sioeau diwedd blwyddyn.

Mae'r Athrofa wedi gwneud gwaith arbennig wrth gydnabod a gwobrwo llwyddiannau i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae pob myfyriwr trydedd flwyddyn sydd wedi astudio 40 credyd o'u gradd trwy gyfrwng y Gymraeg yn derbyn gwobr. Yn ogystal, enwebir aelod o staff ar gyfer gwobr arbennig sy'n cydnabod unigolion sydd wedi hwyluso a galluogi myfyrwyr i astudio rhan o'u gradd yn y Gymraeg. Bu derbyn y wobwr hwn yn gymhellant i un darlithydd i feithrin hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyflwyniad academaidd, gan adlewyrchu effaith gadarnhaol y cynllun gwobrwo.

## **4.2 Cydymffurfiaeth Safonau Llunio Polisi (Safonau 94-104)**

Mae'r Safonau Llunio Polisi yn ei gwneud yn ofynnol i'r Brifysgol:

- ystyried effeithiau ein penderfyniadau polisi ar y Gymraeg (cadarnhaol a negyddol)
- ystyried sut i gynyddu effeithiau positif, lliniaru neu leihau effeithiau negyddol a manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae gan y Brifysgol fframwaith asesu effaith Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg. Cyn cyflwyno polisi newydd i'w gymeradwyo mewn Pwyllgor, mae'n rhaid i'r rheolwr priodol gwblhau asesiad o'r effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg. Anfonir yr asesiadau at sylw Swyddog Safonau'r Gymraeg i'w hystyried, cyn eu cyflwyno i bwyllgor perthnasol y Brifysgol. Yna wrth gyflwyno papurau i bwyllgorau, mae pob rheolwr yn llenwi tudalen glawr sy'n gofyn eu bod wedi ystyried effeithiau'r penderfyniad polisi ar yr iaith Gymraeg, gan amlygu unrhyw effeithiau sydd angen ystyriaeth bellach.

Ynghlwm wrth y gwaith hwn, rydym wedi adnabod bod angen mireinio'r templed cyfredol er mwyn gwneud y broses yn fwy effeithiol ac effeithlon. Yn ogystal, bwriedir llunio canllaw sy'n egluro'r mathau o effeithiau y dylid eu hystyried ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn ystod y cyfnod nesaf, byddwn yn bwrw ati i ddechrau ar y gwaith hwn, gan ddefnyddio'r cyngor a'r arferion da sydd eisoes wedi'u rhannu gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

#### **4.3 Cydymffurfiaeth Safonau Gweithredu (Safonau 105-153)**

Mae'r Safonau Gweithredu yn ymdrin â'r ffordd y mae'r Brifysgol yn defnyddio'r Gymraeg yn fewnol ac yn hyrwyddo'r cysyniad o weithle dwyieithog, gan roi hawliau ieithyddol i weithwyr mewn gweinyddiaeth fewnol.

##### **Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg**

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Unedau Proffesiynol i adolygu a diwygio ein Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg. Nod y polisi hwn yw darparu fframwaith clir i staff ar sut i ddefnyddio'r Gymraeg yn ein gweithle, ac i sicrhau bod ein trefniadau'n gyson â gofynion y Safonau.

Er ein bod eisoes wedi cynnal cyfnod cychwynnol o ymgynghori mewnol, penderfynwyd oedi rhag cyhoeddi'r polisi yn derfynol. Mae hyn er mwyn ein galluogi i ymgorffori'r arweiniad a'r arferion gorau a drafodwyd yng Nghynhadledd Comisiynydd y Gymraeg 'Y Gymraeg a'r Gweithle' (08 07 2025). At hyn deallwn y bydd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn rhannu polisi enghreifftiol ac adnoddau mewn gweithdy ar ddechrau mis Hydref. Ein bwriad yw sicrhau bod ein polisi arfaethedig yn adlewyrchu disgwyliadau cenedlaethol i hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

##### **Asesu Sgiliau iaith a'r Fframwaith CEFR**

Cedwir cofnod o sgiliau iaith pob aelod o staff ar system Adnoddau Dynol y Brifysgol (Resourcelink). Anogir staff i fewnbynnu, adolygu a diweddarau eu cofnodion ar unrhyw adeg drwy system ddigidol My-View. Anfonir gwybodaeth at staff ar eu dyddiad cychwyn ac anfonir nodyn atgoffa yn flynyddol wedi hynny i'w hannog i wneud hynny. Darperir adroddiad ar broffil iaith staff y gweithlu i bwyllgorau'r Gymraeg, ac yn flynyddol fel rhan o'r Adroddiad Monitro Blynyddol. Gweler data ar broffil iaith y gweithlu tudalen 16.

Nodwn yma fod Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 wedi derbyn cydsyniad Brenhinol, ac wedi dod i rym ar yr 8 Gorffennaf 2025. Mae'r Ddeddf yn anelu at roi camau yn eu lle er mwyn ceisio sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd diwedd oedran ysgol gorfodol yn ddefnyddiwr Cymraeg annibynnol, o leiaf. Bydd y Ddeddf hon yn cael effaith ar y gweithle drwy gryfhau'r disgwyliadau iaith a sicrhau bod staff a sefydliadau yn cynllunio ac yn gweithredu polisïau sy'n cefnogi'r Gymraeg yn fwy systematig. Yn gryno, dyma mae Llywodraeth Cymru yn ei addo o ran Deddf 2025:

- cynnwys targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg, o leiaf, erbyn 2050, yn ogystal â thargedau eraill sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys yn y gweithle ac yn gymdeithasol;
- sefydlu dull safonol ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg ar sail lefelau'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer leithoedd (CEFR).

Mae'r Ddeddf hon yn sefydlu'r Fframwaith CEFR fel y model ar gyfer asesu sgiliau iaith y gweithlu. Mae'r Brifysgol yn awyddus i fabwysiadu'r fframwaith hwn i gyd-fynd ag arferion cenedlaethol, ac mae eisoes wedi dechrau datblygu model fyddai'n addas i anghenion penodol y gweithlu. Fodd bynnag, deallir y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y Cod a fydd yn sefydlu'r dull safonol ar gyfer disgifio nodweddion defnyddwyr y Gymraeg yn ystod tymor yr hydref, felly byddwn yn aros am ragor o fanylion ac arweiniad cyn bwrw ymlaen ymhellach gyda'n cynlluniau.

### **Recriwtio a Phenodi**

Rhoddir ystyriaeth ddyledus i'r iaith Gymraeg fel rhan annatod o ganllawiau recriwtio a phenodi'r Brifysgol. Mae dyletswydd ar bob rheolwr i nodi'r gofyniad ieithyddol ar gyfer pob swydd wag gyda'r bwriad o sicrhau fod gallu'r Brifysgol i ddarparu gwasanaethau dwyieithog ar draws pob uned yn flaenoriaeth.

Cydnabyddir bod rhwystrau yn parhau wrth recriwtio i rai meysydd, er enghraifft rolau oddi fewn i'r tîm Gwasanaethau Myfyrwyr. Fodd bynnag, gwelwyd enghreifftiau o gydweithio rhwng Unedau Proffesiynol a'r Ganolfan Gwasanaethau Gymraeg er mwyn goresgyn rhwystrau wrth benodi i swyddi Gymraeg hanfodol. Penodwyd i ddwy swydd allweddol yn yr Adran Farchnata lle profwyd anhawster ar yr ymdrechion cyntaf sef i swydd Marchnata cyrsiau cyfrwng Gymraeg a Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol. Addaswyd y swydd-ddisgrifiad i nodi'r dyletswyddau yn Gymraeg, ac fe'u hysbysebwyd ar wefannau lle mae siaradwyr Gymraeg yn fwy tebygol o chwilio am swyddi cyffelyb. O ganlyniad, bydd canllawiau rheolwyr ar gyfer asesu sgiliau iaith Gymraeg swyddi gwag yn cael eu hadolygu, gan gryfhau ymrwymiad y Brifysgol i gynyddu defnydd y Gymraeg yn y gweithle.

Mae Brifysgol yn gweithredu system ar-lein ar gyfer recriwtio, sy'n gwbl ddwyieithog. Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd lenwi ffurflen gais ar-lein, gyda'r dewis i'w chwblhau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Os bydd ymgeisydd yn dewis gwneud cais drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'r Brifysgol yn sicrhau parhad llawn o'r ddarpariaeth iaith. Mae hyn yn cynnwys:

- cynnal y cyfweiliad drwy gyfrwng y Gymraeg
- darparu cytundeb cyflogaeth yn Gymraeg, a
- sicrhau bod unrhyw ohebiaeth bellach yn ymwneud â'u cyflogaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Drwy'r trefniadau hyn, gwneir yn siŵr bod hawliau iaith ymgeiswyr yn cael eu parchu, a bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg ym mhob cam o'r broses recriwtio a phenodi.

### **Hyfforddiant Dysgu a Datblygu Sgiliau Gymraeg**

Mae pob aelod o staff yn cael cyfle i ddysgu Gymraeg neu uwchsgilio eu lefel hyfedredd presennol, ac mae tri o reolwyr y Brifysgol yn derbyn hyfforddiant un-i-un er mwyn dysgu neu uwch-sgilio'u hyfedredd ieithyddol. Mae'r Brifysgol yn ymroddedig i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg trwy gynllunio a hyfforddi ei gweithlu, a chaiff cyrsiau eu cynnig i staff ar lefelau Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch. Er mwyn annog diddordeb cynigir nifer o sesiynau blasu yn ystod y tymor. Mae'r sesiynau yn rhai hwyliog ac ymgysylltiol, ac rydym yn derbyn adborth cadarnhaol iawn gan gyfranogwyr.

At y ddarpariaeth hon, mae gan y Brifysgol nifer o gynlluniau mewnol, er mwyn ceisio annog defnydd y Gymraeg:

### **Paned a Sgwrs**

Mae cyfle i staff, myfyrwyr a'r cyhoedd i ddod at ei gilydd yn ein sesiwn wythnosol a chael cyfle i gael sgwrs yn y Gymraeg, ynghyd â chefnogi siaradwyr newydd. Mae rhwng 10 a 15 yn ymuno'n wythnosol.

- **Campws Caerfyrddin:** Pob dydd lau am 1:00 yp yn Yr Egin
- **Campws Abertawe:** Pob dydd lau am 1:00 yp yng Nghaffi Tawe

### **Côr y Gangen**

Mae yna gyfle i gymdeithasu a chael hwyl yn y Gymraeg drwy ymuno gydag ymarferion Côr y Gangen, bob nos Fawrth. Mae aelodau'r côr yn cymryd rhan yng ngwasanaeth Dydd Gŵyl Dewi a Gwasanaeth Nadolig y Brifysgol. Mae gan y Côr aelodaeth o rhwng 20 - 30 aelod.

### **Cynllun Ffrind Iaith**

Bob blwyddyn, mae Rhagoriaith yn croesawu athrawon i'n campysau i'w trochi yn y Gymraeg dros dymor yr Hydref a'r Gwanwyn ar Gynllun Sabothol Llywodraeth Cymru. Yn rhan o'r cynllun mae'r Brifysgol yn trefnu cynllun 'Ffrindlaith' sy'nparu'r athrawon gydag aelod o staff y Brifysgol er mwyn cwrdd ac ymarfer eu Gymraeg; gall hyn fod dros Teams, neu dros banded ar y campysau. Pwrpas y cynllun yw magu hyder yr athrawon a rhoi cyfle iddynt ymarfer y tu allan i'r dosbarth mewn awyrgylch anffurfiol a naturiol, ar ffurf sgwrs gyda ffrind newydd. Yn anuniongyrchol, maent hefyd yn arwain at dwf yn y defnydd naturiol a wneir o'r Gymraeg ymhlith staff.

## **5. Codi Ymwybyddiaeth a Hyrwyddo Defnydd o'r Gymraeg**

Codir ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg sydd ar gael trwy ddulliau amrywiol.

### **Digwyddiadau Croeso**

Ar ddechrau pob blwyddyn academiaidd, cyhoeddir fideo at sylw pob myfyriwr newydd sy'n egluro'r gefnogaeth a'r cymorth sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg. Mae'r fideo'n cynnwys gwybodaeth am y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Safonau'r Gymraeg, Y Ganolfan Gwasanaethau Cymraeg gan gynnwys Rhagoriaith a Pheniarth, Y Dystysgrif Sgiliau Iaith, a Chanolfan S4C – Yr Egin.

### **Penwythnos y Glas**

Mae Cangen y Drindod Dewi Sant o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi trefnu Penwythnos y Glas ers sawl blwyddyn bellach. Mae'r digwyddiad hwn yn rhoi cyfle i lasfyfyrwyr Cymraeg eu hiaith (sy'n bwriadu astudio trwy gyfrwng y Gymraeg neu beidio) ymgartrefu ar Gampws Caerfyrddin cyn i weddill y flwyddyn gyntaf gyrraedd ddeuddydd yn ddiweddarach. Mae digwyddiad tebyg yn digwydd ar gampysau Abertawe hefyd ac mae'n rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg ddod i adnabod ei gilydd a'r campws cyn i'r tymor ddechrau.

At hyn, yn rhan o'r Digwyddiadau Croeso mae Swyddog Cangen y Coleg Cymraeg yn cwrdd â phob myfyriwr sydd wedi nodi eu bod yn medru'r Gymraeg, er mwyn rhoi gwybod iddynt bod modd dyrannu tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg, a hefyd bod modd cyflwyno unrhyw waith ysgrifenedig fel rhan o asesiad neu arholiad yn y Gymraeg. Yn ystod y tymor, rhennir Newyddlen y Gangen, sy'n tynnu sylw myfyrwyr at eu hawliau o dan drefn Safonau'r Gymraeg, gwybodaeth am gyrsiau datblygu sgiliau Cymraeg, megis Tystysgrif Sgiliau Iaith, ynghyd â gwybodaeth ynghylch cymuned Gymraeg y Brifysgol.

### **Cwrs Preswyl Blas ar Brifysgol**

Dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, trefnwyd Cwrs Preswyl 'Blas ar Brifysgol' (23-24 Mehefin) i gynnig cyfle i ddisgyblion chweched dosbarth a myfyrwyr colegau i brofi bywyd myfyriwr drwy gyfrwng y Gymraeg. Fe wnaeth 38 o ddarpar fyfyrwyr fynychu'r cwrs, gydag 89% ohonynt yn nodi yn y ffurflen adborth y byddent yn ystyried gwneud cais i'r Brifysgol yn dilyn y ddeuddydd llawn gwybodaeth.

Nododd nifer o'r myfyrwyr fod eu huchafbwyntiau'n cynnwys clywed gan academyddion am y meysydd pwnc; cwrdd â ffrindiau newydd a chymdeithasu yn Yr Egin; cymryd rhan yn y panel byd gwaith, a gwrando ar siaradwyr ysbrydoledig, yn enwedig anerchiad agoriadol Ann Davies AS. Rhoddodd y digwyddiad gyfle i hyrwyddo ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg a sbarduno diddordeb myfyrwyr i wneud cais i'r Brifysgol fel eu dewis addysgol. Yn y flwyddyn sydd i ddod, mae'r Brifysgol yn archwilio ffyrdd o gynnal y Cwrs Preswyl eto, wedi'i gyllido'n fewnol.

### **Cofrestriad diofyn 2024/25**

Gosododd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol amod ar bob darparwr a oedd yn derbyn grant pynciol i weithredu cofrestru diofyn ar ddarpariaeth Gymraeg. Roedd hyn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu cofrestru yn y lle cyntaf ar ddarpariaeth Gymraeg gyda'r opsiwn o symud i'r ddarpariaeth Saesneg ar gais. Llwyddwyd i'w weithredu yn llwyddiannus yn ein meysydd perthnasol gyda 100% yn aros ar y ddarpariaeth Gymraeg.

### **Ymgyrchoedd i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg**

Mae'r Brifysgol yn defnyddio dyddiadau penodol yn y calendr er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg fel a ganlyn:

#### **Dydd Santes Dwynwen**

Am yr ail flwyddyn rhoddwyd ar waith 'Gwobr Caredigrwydd', i gyd-fynd â diwrnod Santes Dwynwen, gan gydnabod nad yw'r diwrnod yn ymwneud â chariad yn unig, ond hefyd i ddangos gwerthfawrogiad a diolch. Cafodd staff gyfle i enwebu cydweithiwr i dderbyn cerdyn gyda neges bersonol ac anrheg fach. Yn ystod y dathliad hwn, derbyniwyd 80 o enwebiadau, gan ei wneud yn ymarfer llwyddiannus iawn yn ein hymdrechion i ledaenu'r Gymraeg ar draws y Brifysgol.

#### **Diwrnod Shw mae**

Fel rhan o ddathliadau *Diwrnod Shw Mae*, manteisiwyd ar y cyfle i lansio tudalennau'r fewnwyd, sef adnoddau i helpu staff gydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg ac i'w cynorthwyo i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

#### **Ymgyrch #Defnyddia dy Gymraeg**

Ym mis Rhagfyr ymunodd y Brifysgol yn ymgyrch Comisiynydd y Gymraeg i hyrwyddo *#Defnyddia dy Gymraeg*. Yn ogystal â chreu fideo yn dangos sut mae aelodau staff yn defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith, cynhaliwyd stondin galw heibio i gasglu hoff eiriau gan staff a myfyrwyr, gan gasglu tua 150 o eiriau. Defnyddiwyd y geiriau wedyn mewn cerdd wedi ei chreu gan y Prifardd Dr Aneirin Karadog dan y teitl '**Ei Chanu i'r Byd**', a rhyddhawyd i'r staff mewn fformat fideo.

#### **Dydd Miwsig Cymru**

Cynhaliwyd Dydd Miwsig Cymru ar Chwefror y 7fed, gyda dathliad llawn cerddoriaeth, canu a chwis. Yn rhan o'r digwyddiadau:

- croesawyd Côr Ysgol y Model i berfformio yn Yr Egin
- bu aelod o staff o Fenter Abertawe yn diddanu myfyrwyr a staff gyda'i gitâr yn IQ Abertawe
- cynhaliwyd cwis hwyliog ar y ddau gampws gan Fenter Gorllewin Sir Gâr ac Abertawe
- chwaraewyd cerddoriaeth Gymraeg ar draws holl fwytai'r Brifysgol drwy'r dydd.

Roedd y digwyddiad yn gyfle i hybu'r Gymraeg a cherddoriaeth Gymraeg ymysg myfyrwyr a staff, gan gryfhau ymwybyddiaeth a phrofiad y gymuned Gymraeg oddi fewn i'r brifysgol.

### **Gŵyl y Pethau Bychain**

Cynhaliwyd Gŵyl Y Pethau Bychain drwy gydol mis Mawrth, gyda lluoedd o weithgareddau wedi'u trefnu gan amrywiol Unedau o fewn y Brifysgol i ddathlu diwylliant a Chymreictod. Cynhaliwyd her gerdded, pop-ups amrywiol, sesiynau blasu dysgu Cymraeg, a llawer mwy. I gloi digwyddiadau Gŵyl y Pethau Bychain cynhaliwyd Cinio'r Gangen ar nos Wener 14eg o Fawrth yng Nghanolfan S4C yr Egin, lle daeth nifer fawr o fyfyrwyr a staff ynghyd i nodi'r achlysur mewn awyrgylch dathliadol.

Roedd y gweithgareddau hyn yn gyfle gwych i gymryd seibiant o ddyletswyddau bob dydd, cysylltu â chydweithwyr a myfyrwyr, a dathlu'r iaith a'r diwylliant mewn modd hwyliog. Derbyniwyd adborth cadarnhaol iawn, gyda llawer yn mynegi eu gwerthfawrogiad o'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau ysbrydoledig ac ymgysylltu â'r Gymraeg mewn ffyrdd newydd.

## **Llwyddiannau a Gwobrau**

### **Gwobr Cyfraniad Eithriadol i Addysg Cyfrwng Cymraeg gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

Mae'r Brifysgol yn falch iawn bod yr Athro Mirjam Plantinga, Dirprwy Is-ganghellor (Addysg) wedi derbyn y wobr yma i gydnabod ei gwaith yn hyrwyddo a gwella addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y brifysgol. Daw Mirjam yn wreiddiol o Egmond aan Zee yn yr Iseldiroedd, ac mae wedi dysgu Cymraeg trwy'r Ganolfan Gwasanaethau Cymraeg y Brifysgol. Hi sydd â chyfrifoldeb dros brofiadau academaidd yn y brifysgol. Gyda chefnogaeth lawn tîm rheoli'r Brifysgol mae wedi gweithio'n dawel ond yn ddiwyd i newid y ffordd y mae addysg cyfrwng Cymraeg, a materion sy'n ymwneud â thwf addysg cyfrwng Cymraeg yn benodol yn cael eu cynllunio'n strategol gan y Brifysgol.

### **Gwobrau Blynyddol Staff (Gwobrau Nexus)**

Mae'r Brifysgol yn falch iawn o gydnabod cyflawniadau staff yng Ngwobrau blynyddol Nexus a gynhaliwyd brynhawn Mawrth, 25 Mehefin. Cafodd 3 gwobr ei dyfarnu i staff i gydnabod eu gwaith blaenllaw mewn perthynas â'r Gymraeg, sef:

### **Gwobr Dysgu ac Addysgu Cyfrwng Cymraeg**

Dyfarnwyd y wobr i Dylan Blain Athrofa Chwaraeon a Byw'n Iach, IMH. Dyma ddywedwyd amdano:

“ Mae ein henillydd wedi cael effaith drawsnewidiol ar addysg cyfrwng Cymraeg yn y Brifysgol, gan arwain datblygiad darpariaeth ddwyieithog ar draws nifer o gyrsiau. Trwy ei arweinyddiaeth ef, gall myfyrwyr astudio hyd at 80 credyd yn y Gymraeg, gyda chefnogaeth wedi'i theilwra ar gyfer siaradwyr rhugl a llai hyderus... Mae wedi ehangu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg mewn addysg chwaraeon ac iechyd, wedi datblygu adnoddau addysgu cenedlaethol, ac wedi arwain ymgyrchoedd allgymorth llwyddiannus. Mae ei ymchwil ym maes iechyd a llesiant yn llywio ymyriadau effeithiol mewn ysgolion. Yn academydd a mentor uchel ei barch, mae'n enghraifft o ymroddiad i addysg ddwyieithog ac mae'n allweddol wrth gyflawni Strategaeth y Gymraeg y Brifysgol.”

## **Gwobr Prosiect Dysgu Digidol**

Dyfarnwyd y wobwr i Lynwen Davies, Y Ganolfan Gwasanaethau Cymraeg.

Defnyddia'r prosiect arloesol hwn dechnoleg ddigidol drochol i efelychu amgylcheddau proffesiynol y byd go iawn, gan drawsnewid y profiad dysgu i fyfyrwyr cyfieithu. Trwy'r Ystafell Drochi a phensetiau VR, mae myfyrwyr yn ymarfer cyfieithu ar y pryd mewn senarios realistig, di-risg, gan wella hyder, ymgysylltiad a sgiliau ymarferol.

Mae'r prosiect yn cefnogi datblygiad y Gymraeg ac yn cael ei ganmol am ei berthnasedd o ran parodrwydd ar gyfer y gweithle. Amlyga adborth cynnar ei effeithiolrwydd wrth baratoi myfyrwyr ar gyfer asesiadau a gyrfaedd. Mae wedi ysbrydoli diddordeb sefydliadol mewn ehangu dysgu trochol ar draws disgyblaethau, yn enwedig mewn hyfforddiant athrawon.

**Ymrwymiad Personol i Ddysgu Cymraeg:** gwobr i gydnabod cyfraniad ac ymrwymiad unigolyn i ddysgu'r Gymraeg. Dyfarnwyd y wobwr i Ellen Harris. Dyma ddywedwyd amdani: "Mae enillydd y wobwr wedi bod yn dilyn cyrsiau Cymraeg i staff gyda'r Ganolfan Gwasanaethau Cymraeg ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ers chwe blynedd, ac mae ei hymroddiad i'r sesiynau ac i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg personol yn glodwiw iawn. Defnyddia ei Chymraeg wrth weithio gyda staff eraill ac wrth gynorthwyo myfyrwyr yn y llyfrgell, ac mae hi bob amser yn gwneud hynny gyda gwên." Mae Ellen hefyd yn cynrychioli'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd ar yr Is-Bwyllgor Rhwydwaith y Gymraeg, ac yn gwneud cyfraniad arbennig.

## **Cyrsiau Academiaidd**

Yn ymateb i agenda ieithyddol Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae Canolfan Gwasanaethau Cymraeg PCYDDS wedi datblygu dau gwrs Ôl-Radd sydd wedi'u targedu yn benodol at ymarferwyr proffesiynol sy'n dymuno datblygu gyrfa ym maes cynllunio ieithyddol.

- Tystysgrif Ôl-Raddedig Cyfieithu ar y Pryd – 3 myfyriwr wedi graddio (cohort 2025)
- Tysgysgrif Ôl-Raddedig mewn Polisi a Chynllunio Iaith – 5 myfyriwr wedi graddio (cohort 2025).

Mae'r cyrsiau hyn yn cyfrannu at hyfforddi a meithrin arbenigedd proffesiynol i gefnogi'r agenda ieithyddol genedlaethol.

## **Ysgoloriaethau**

Llwyddodd 153 o fyfyrwyr ennill Ysgoloriaeth Cymhelliant y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Bydd deiliaid yr ysgoloriaeth yn derbyn £500 y flwyddyn am astudio o leiaf 40 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Llwyddodd 4 o fyfyrwyr ennill Prif Ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg, sy'n werth £1,000 y flwyddyn am astudio o leiaf 66% o'r cwrs drwy'r Gymraeg.

## **Gwobr Goffa Norah Isaac**

Dyfernir Gwobr Goffa Norah Isaac i'r myfyriwr a gyfrannodd fwyaf, yn nhyb y Brifysgol, at fywyd Cymraeg y sefydliad yn ystod y flwyddyn academiaidd o dan sylw.

Enillydd y wobwr ar gyfer 2025 oedd Osian Williams, myfyriwr cwrs BA Addysg Gynradd gyda SAC o Gaerdydd. Fel Llwydd y Gymdeithas Gymraeg eleni, a'r Is- Lywydd y flwyddyn ddiwethaf, bu'n llysgennad penigamp dros iaith a diwylliant Cymru gan gydweithio'n ddiflino gyda'i gyd-fyfyrwyr. Trefnodd dorraeth o ddigwyddiadau drwy gyfrwng y Gymraeg a'u hysbysebu gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn modd creadigol tu hwnt.

## **Gwobr Myfyriwr a gafodd y canlyniad gorau yn asesiad Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

Fel sefydliad, rydym yn hynod falch bod y wobr hon wedi'i dyfarnu i un o fyfyrwyr Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Enillydd y wobr eleni oedd Sion Jones o Ddrefach Felindre, sydd newydd raddio o'r Cwrs BA Addysg Gynradd drwy PCYDDS; dywedodd: "Rydw i'n defnyddio'r iaith yn naturiol o ddydd i ddydd ac mae'n rhan o'n diwylliant a'n hunaniaeth, ond mae cael y cyfle i ennill y dystysgrif tra'n astudio ar y nghwrs wedi rhoi tystiolaeth ffurfiol o'm sgiliau ieithyddol ac mi fydd o gymorth mawr wrth i mi ymgeisio am swydd fel athro, gan ddangos hefyd fy mod i eisiau parhau i'w defnyddio a'i hybu yn y dyfodol"

## **6. Adrodd ar Gwynion (Safonau 163-177)**

Bydd y Brifysgol yn ymdrin ag unrhyw gŵyn am y Gymraeg neu unrhyw agwedd o weithredu Safonau'r Gymraeg yn unol â pholisi cwynion y sefydliad. Mae dogfen [Gweithdrefn gwyno yn ymwneud â'r Gymraeg](#) wedi ei chymeradwyo, a'i chyhoeddi ar wefan y Brifysgol; sy'n cynnwys ffurflen gwyno ynghyd ag esboniad o sut bydd y Brifysgol yn gweithio i ddod o hyd i ddatrasiad. [Ffurflen Gwyno ynglŷn â'r Safonau Iaith](#)

Yn ystod y cyfnod adrodd, 1 Awst 2024 – 31 Gorffennaf 2025 ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ynghylch gweithrediad Safonau'r Gymraeg neu unrhyw agwedd ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg.

## **7. Data Sgiliau Cymraeg Staff**

Wrth ystyried yr heriau ariannol parhaus sy'n wynebu'r sector Addysg Uwch, mae'n hanfodol adolygu'n barhaus y cyfuniad o gyrsiau academiaidd a'r trefniadau staffio er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu blaenoriaethau strategol ac ariannol y Brifysgol. Yn sgil y gostyngiad yn nifer cyffredinol y staff craidd, gwelir hefyd effaith gyfatebol ar nifer y siaradwyr Cymraeg ymhlith y gweithlu. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn elfen greiddiol o'r broses Adolygiad Cynllunio Cwricwlwm, ac fe'i hystyrir yn systematig ar bob cam o'r broses, gan sicrhau bod pob penderfyniad yn cyd-fynd yn llawn â Strategaeth Iaith y Brifysgol.

|                                   |                                |
|-----------------------------------|--------------------------------|
| <b>Cyfanswm Staff Craidd 2024</b> | <b>1424</b>                    |
| <b>Cyfanswm Staff Craidd 2025</b> | <b>1339</b> (gostyngiad o 85 ) |

### **Sgiliau Cymraeg y rheiny a gyflogid gan y Brifysgol ddiwedd Gorffennaf 2025.**

Mae'n ofynnol i staff ddiweddarau a chynnal eu sgiliau iaith Gymraeg trwy'r Dangosfwrdd MY View. Yn ôl y cofnodion a ddaliwyd yn mis Medi 2025, cofnodwyd bod gan gyflogeion y Brifysgol y lefel ganlynol o sgiliau iaith Gymraeg:

- (i) **Canran a nifer yr holl staff a oedd yn gallu siarad Cymraeg rhwng 1 Awst 2024 a 31 Gorffennaf 2025**

|                                                   | Yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl | Yn gallu siarad Cymraeg ond heb fod yn rhugl | Ddim yn gallu siarad Cymraeg | Anhysbys    |
|---------------------------------------------------|----------------------------------|----------------------------------------------|------------------------------|-------------|
| <b>Staff Academaidd</b>                           | 15.1% (65)                       | 25.6% (110)                                  | 40.9% (176)                  | 18.4% (79)  |
| <b>Staff Gwasanaethau Cymorth a Phroffesiynol</b> | 19.8% (180)                      | 25.2% (229)                                  | 36.3% (330)                  | 18.7% (170) |
| <b>Cyfanswm Holl Staff</b>                        | 18.3% (245)                      | 25.3% (339)                                  | 37.8% (506)                  | 18.6% (249) |

- (ii) **Cymhariaeth rhwng 2024 a 2024 nifer yr holl staff a oedd yn gallu siarad Cymraeg**

|             | Yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl | Yn gallu siarad Cymraeg ond heb fod yn rhugl | Ddim yn gallu siarad Cymraeg | Anhysbys    |
|-------------|----------------------------------|----------------------------------------------|------------------------------|-------------|
| <b>2024</b> | 19.0% (270)                      | 25.8% (367)                                  | 38.8% (553)                  | 16.4% (234) |
| <b>2025</b> | 18.3% (245)                      | 25.3% (339)                                  | 37.8% (506)                  | 18.6% (249) |

O'r **holl staff y brifysgol** mae 43.6% (584) yn medru siarad rhywfaint o Gymraeg, ac o'r rhain mae 18.3% (245) yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Wrth gymharu data 2023/4 gyda data 2024/5 cofnodwyd gostyngiad o 0.7% yn nifer y staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, a gostyngiad o 0.5% yn nifer sy'n gallu siarad Cymraeg ond heb fod yn rhugl.

- (iii) **Canran a nifer y staff sydd wedi'u lleoli ar gampysau yng Nghymru sy'n gallu siarad Cymraeg.**

|             | Yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl | Yn gallu siarad Cymraeg ond heb fod yn rhugl | Ddim yn gallu siarad Cymraeg | Anhysbys    |
|-------------|----------------------------------|----------------------------------------------|------------------------------|-------------|
| <b>2024</b> | 21.9% (270)                      | 29.2% (360)                                  | 34.5% (426)                  | 14.4% (177) |
| <b>2025</b> | 21.8% (245)                      | 29.6% (332)                                  | 33.2% (373)                  | 15.3% (172) |

O ran staff sydd wedi'u **lleoli ar gampysau Cymru**, mae ychydig dros hanner y staff yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg, 51.4% (577), ac o'r rhain mae 21.8% (245) yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Wrth gymharu'r data 2023/4 â data 2024/5 cofnodwyd bod gostyngiad ymylol, sef 0.7 % gostyngiad yn nifer y staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, a gostyngiad o 0.5% yn nifer staff sy'n gallu siarad Cymraeg ond heb fod yn rhugl.

(iv) **Canran a nifer y staff academiaidd a oedd yn gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg:**

|                               | <b>Gallu addysgu</b> | <b>Methu addysgu</b> | <b>Ddim yn gwybod</b> |
|-------------------------------|----------------------|----------------------|-----------------------|
| <b>Staff Academiaidd 2024</b> | 14.9% (68)           | 69.7% (318)          | 15.4% (70)            |
| <b>Staff Academiaidd 2025</b> | 14.7% (63)           | 70.5% (303)          | 14.9% (64)            |

Bu gostyngiad ymylol yn nifer y staff academiaidd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg sef gostyngiad o 0.2%.

Fodd bynnag, dylid ystyried y gostyngiad ymylol yn y niferoedd yng nghyd-destun y broses barhaus o ailstrwythuro ac ail-alinio cyrsiau'r Brifysgol er mwyn cefnogi ei hamcanion strategol.

## 8. Data Cyrsiau Dysgu a Datblygu Sgiliau Cymraeg

Anogir staff i ddysgu a gwella eu sgiliau iaith Gymraeg a rhoddir cyfle iddynt i gymryd cyrsiau iaith Cymraeg Gwaith, naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein.

### Darpariaeth i Staff

| <b>Cwrs</b>              | <b>Nifer wedi cofrestru</b> |
|--------------------------|-----------------------------|
| Lefel Mynediad           | 11 wedi cwblhau             |
| Lefel Sylfaen            | 6 wedi cwblhau              |
| Lefel Canolradd          | 4 wedi cwblhau              |
| Lefel Uwch               | 5 wedi cwblhau              |
| Tystysgrif Sgiliau Iaith | 1 wedi cwblhau              |

### Darpariaeth i Fyfyrwyr

| <b>Cwrs</b>              | <b>Nifer wedi cofrestru</b> |
|--------------------------|-----------------------------|
| Tystysgrif Sgiliau Iaith | 8 wedi cwblhau              |

## 9. Data Cyrsiau Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg

Cynigiwyd y cyrsiau hyfforddiant cyfrwng Cymraeg isod yn ystod y flwyddyn.

| Teitl                                         | Staff Academaidd | Gwasanaethau proffesiynol | Cyfanswm | Canran |
|-----------------------------------------------|------------------|---------------------------|----------|--------|
| Modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg   | 3                | 14                        | 17       | 7.9%   |
| Modiwl e-ddysgu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth    | 5                | 9                         | 14       | 5.3%   |
| Modiwl e-ddysgu Deall Iechyd a Diogelwch      | 2                | 1                         | 3        | 0.9%   |
| Modiwl e-ddysgu Creu Cynnwys Hygyrch          | 3                | 6                         | 9        | 8.3%   |
| Modiwl e-ddysgu Hanfodion Diogelu             | 1                | 1                         | 2        | 1.4%   |
| Modiwl e-ddysgu Iechyd meddwl a lles myfyrwyr | 1                | 1                         | 2        | 1%     |
| Modiwl e-ddysgu Diogelu Data                  | 3                | 22                        | 25       | 32.1%  |
| Modiwl e-ddysgu Deddf Rhyddid Gwybodaeth      | 1                | 11                        | 22       | 21.1%  |

Mae'r Cwrs Hanfodion Diogelu Data a Deddf Rhyddid Gwybodaeth yn gyrsiau a gyflwynwyd yn ystod 2024/25, felly mae'r cyfraddau cwblhau yn uwch ar gyfer y modiwlau hyn oherwydd hyrwyddo gweithredol ar adeg eu lansio.

Mae plattform ar-lein hunan-ddatblygiad y Brifysgol, Fy Mentor / My Mentor yn defnyddio botwm i alluogi llywio at y cynnwys Cymraeg. Lansiwyd fersiwn wedi'i ddiweddarau ar 19 Medi 2024, sy'n galluogi defnyddio'r plattform cyfan yn y Gymraeg, gyda'r opsiwn i wneud dewis iaith yn y gosodiadau. At hyn, mae pob elfen o'r Hwb Datblygu Staff ar SharePoint ynghyd â Mewnrwyd y staff ar gael yn y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y canolynol:

- Gwybodaeth Allweddol
- Hyfforddiant Gorfodol
- Newydd yn eich rôl
- Llesiant
- Cymorth y Gwasanaethau Proffesiynol
- Sgiliau Digidol
- Cymorth Dysgu ac Addysgu
- Dysgu LinkedIn
- Rheolaeth ac Arweinyddiaeth
- Fy Mentor

## 10. Data Recriwtio

Mae'r tabl isod yn cyfeirio at nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd rhwng 1 Awst 2024 a 31 Gorffennaf 2025 gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol neu ddymunol ynghyd â chanran y swyddi lle penodwyd siaradwyr Cymraeg.

### (i) Nifer o swyddi gwag a hysbysebwyd ar ein campysau yng Nghymru (Safonau 145, 178)

**125** o swyddi wedi'u hysbysebu ar ein campysau yng Nghymru

| Categori                                                                                              | Nifer | %   | % o siaradwyr Cymraeg a benodwyd |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------|-----|----------------------------------|
| Nifer o swyddi gwag hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn <b>sgil hanfodol</b>                                | 20    | 16% | 75%                              |
| Nifer o swyddi gwag hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil <b>dymunol</b>                                 | 104   | 84% | 26%                              |
| Nifer o swyddi gwag hysbysebwyd lle bod <b>angen dysgu sgiliau</b> yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd | 0     | 0   | 0%                               |
| Nifer o swyddi gwag hysbysebwyd lle nad oedd sgiliau yn y Gymraeg <b>yn angenrheidiol</b>             | 0     | 0   | 0%                               |

### (ii) Cymhariaeth rhwng 2024 a 2025

| Categori                                                                                              | 2024 | 2025 | + / - |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------|------|------|-------|
| Cyfanswm swyddi hysbysebwyd campysau Cymru                                                            | 130  | 125  | -5    |
| Nifer o swyddi gwag hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn <b>sgil hanfodol</b>                                | 25   | 20   | -5    |
| Nifer o swyddi gwag hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil dymunol                                        | 105  | 105  | =     |
| Nifer o swyddi gwag hysbysebwyd lle bod <b>angen dysgu sgiliau</b> yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd | 0    | 0    | 0     |
| Nifer o swyddi gwag hysbysebwyd lle nad oedd sgiliau yn y Gymraeg <b>yn angenrheidiol</b>             | 0    | 0    | 0     |

O'r holl swyddi gwag wedi'u lleoli yng Nghymru a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol, penodwyd 75% (20) ohonynt gyda siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag ni fu modd llenwi 25% (5) o'r swyddi gwag oherwydd diffyg ymgeiswyr neu ansawdd yr ymgeisgwyr heb y sgiliau angenrheidiol i gyflawni'r swydd.

O'r holl swyddi gwag a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil dymunol, penodwyd 26% ohonynt gyda siaradwyr Cymraeg. Penodwyd 53% o'r swyddi i bersonau heb sgiliau Cymraeg, ac ni fu modd llenwi 20% o'r swyddi oherwydd diffyg ymgeiswyr neu ansawdd yr ymgeisgwyr heb y sgiliau angenrheidiol i gyflawni'r swydd.